

## Hawliau'r Unigolyn

Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn rhoi 8 hawl i unigolyn. Gweler isod drosolwg o 8 hawl yr unigolyn. Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth <http://www.ico.org.uk/>

**Yr Hawl i Ddileu (i gael eich anghofio).** Gall yr unigolyn wneud cais i ddileu neu waredu ei ddata personol lle nad oes angen rheswm cymhellol dros ei brosesu ymhellach.

**Yr Hawl i Gywiro.** Mae gan yr unigolyn yr hawl i gywiro ei ddata personol os yw'n anghyflawn neu'n anghywir.

**Yr Hawl i Gyfyngu ar Brosesu.** Gall yr unigolyn 'flocio' neu atal data personol rhag cael ei brosesu.

**Yr Hawl i Gludadwyedd Data.** Mae hyn yn caniatáu i'r unigolyn gadw ac aildefnyddio ei ddata personol at ei ddibenion ei hunan ar draws gwasanaethau gwahanol.

**Yr Hawl i Wrthwynebu.** Gall yr unigolyn wrthwynebu i brosesu ei ddata personol; gan gynnwys marchnata uniongyrchol a phroffilio.

**Yr Hawl i gael ei Hysbysu.** Mae hyn yn cwmpasu hawl unigolyn i dderbyn 'gwybodaeth brosesu deg', fel arfer drwy hysbysiad preifatrwydd.

**Yr Hawl i Fynediad.** Mae hyn yn caniatáu i'r unigolyn gael mynediad at ei ddata personol.

**Gwneud Penderfyniadau a Phroffilio Awtomataidd.** Gall unigolyn wneud cais i beidio â bod yn destun penderfyniad pan fo'n seiliedig ar brosesu awtomataidd ac yn cael effaith gyfreithiol neu effaith sylweddol debyg ar yr unigolyn.